Kirsty Williams, AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

21 Mawrth 2017

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Annwyl Kirsty

Fel y gwyddoch, yn ddiweddar, trafododd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn ymwneud â'r Bil Addysg Uwch ac Ymchwil sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd, a chyflwynodd adroddiad arnynt. Rhoddodd y Cynulliad gydsyniad ar gyfer y ddau femorandwm ar 14 Chwefror.

Wrth drafod y ddau Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ni thynnwyd sylw at unrhyw faterion o bryder yn ymwneud â'r cydsyniad, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon i gefnogi'r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a gyflwynwyd. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ar ddau o'r bwriadau polisi sy'n deillio o'r Bil.

Y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF)

Mae'r Bil Addysg Uwch ac Ymchwil yn galluogi Gweinidogion Cymru i gydsynio i sefydliadau addysg uwch Cymru gymryd rhan yng nghynllun sgorio'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) os ydynt yn dymuno.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, cafodd y Pwyllgor lythyr oddi wrth Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a oedd yn dweud ei bod yn briodol i hyn ddigwydd. Roedd Prifysgolion Cymru yn croesawu'r datblygiad hwn hefyd. Fodd bynnag, cafodd y Pwyllgor ohebiaeth gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (NUS Cymru) sydd â phryderon sylweddol am y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu. Yn ei ymateb i'r Pwyllgor, cadarnhaodd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru nad yw'n

credu bod y newidiadau arfaethedig yn wirioneddol yn rhan o ymgais i greu system sy'n gweithio i fyfyrwyr; yn hytrach, maent yn rhan o ymgais i greu sectorau addysg uwch sy'n cael eu gyrru gan y farchnad ymhellach a chodi ffioedd dysgu yn sylweddol. Nid yw metrigau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu. . . yn mesur rhagoriaeth addysgu yn ddigonol.

Er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y gwelliannau a gynigiwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, byddai'n croesawu eglurhad ar eich cynlluniau o ran caniatáu i sefydliadau addysg uwch Cymru wneud cais i gymryd rhan yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu ac yn benodol, sut y byddwch yn mynd i'r afael â phryderon Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru.

Cyllido ymchwil

Mae'r Bil yn egluro ac yn ymestyn pwerau Gweinidogion Cymru i ddyfarnu cyllid ar gyfer ymchwil. Mae'r gwelliannau'n cynnwys pŵer i wneud grantiau, benthyciadau neu daliad arall at ddibenion ymchwil ar y telerau a'r amodau yr ystyrir yn briodol.

Unwaith eto, er bod y Pwyllgor yn fodlon ar y gwelliannau a gynigiwyd, byddem yn croesawu sicrwydd nad oes gennych unrhyw gynlluniau i newid y system bresennol lle mae cyllid craidd ar gyfer ymchwil yng Nghymru yn cael ei ddarparu drwy CCAUC o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae Prifysgolion Cymru yn arbennig yn pryderu y gallai unrhyw newidiadau, er enghraifft i gyllid uniongyrchol ar gyfer ymchwil gan Lywodraeth Cymru, o bosibl fethu â darparu mesurau diogelwch digonol ar gyfer y sefydliadau.

Byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau ar y pwyntiau uchod.

Yn gywir

Lynne Neagle AC
Cadeirydd